OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 1049 (Cy. 111)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992 ("Rheoliadau 1992") yn rhagnodi amodau y mae'n rhaid i weithwyr gofal a gwahanol bersonau o ddisgrifiadau eraill eu cyflawni er mwyn cael eu diystyried at ddibenion disgowntiau'r dreth gyngor y mae adran 11 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") yn rhagnodi ar eu cyfer.

Mae rheoliad 2 yn diwygio amodau Rheoliadau 1992 fel bod gweithwyr gofal sy'n darparu gofal i berson sydd â hawl i daliad annibyniaeth y lluoedd arfog yn cyflawni'r gofynion angenrheidiol i gael eu diystyried at ddibenion adran 11 o Ddeddf 1992.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, nid ystyriwyd bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol ar y costau a'r manteision tebygol o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 1049 (Cy. 111)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Mai 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *2 Mai 2013* |
| *Yn dod i rym* | *24 Mai 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 9 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013, ac maent yn dod i rym ar 24 Mai 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1992 p.14.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

**Diwygio Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992**

**2.** Mae paragraff 3(a) o’r Atodlen i Reoliadau’r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ar ddiwedd paragraff (iv) hepgorer “or”; a

(b) ar ôl paragraff (v) mewnosoder—

“or

(vi) armed forces independence payment under the Armed Forces and Reserve Forces (Compensation Scheme) Order 2011(**2**);”.

Lesley Griffiths

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, un o Weinidogion Cymru

1 Mai 2013

(**1**) O.S. 1992/552. Diwygiwyd paragraff 3(a) o’r Atodlen gan O.S. 1994/540; O.S. 1996/637; O.S. 2013/388; O.S. 2013/591; O.S. 2013/639 (Cy.72) ac O.S. 2013/725.

(**2**) O.S. 2011/517.